OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2014 No. 1132

# Rheoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2014

## RHAN 2

## SEFYDLU NEU YMUNO Â FFEDERASIWN

### Ystyried ymatebion i gynigion a phenderfynu a ddylid mynd ymlaen â hwy – ysgolion bach

**12.**—(1) Rhaid i'r awdurdod lleol ystyried unrhyw ymatebion i'r cynigion a chyhoeddi crynodeb o'r ymatebion ynghyd â sylwadau'r awdurdod lleol ar wefan yr awdurdod lleol.

(2) Rhaid i'r awdurdod lleol benderfynu naill ai—

(a) mynd ymlaen â'r cynigion ar gyfer ffedereiddio fel y'u cyhoeddwyd;

(b) mynd ymlaen â'r cynigion ar gyfer ffedereiddio gyda pha addasiadau bynnag a ystyrir yn briodol gan yr awdurdod lleol; neu

(c) peidio â mynd ymlaen â'r cynigion ar gyfer ffedereiddio.

(3) Rhaid i'r addasiadau y cyfeirir atynt ym mharagraff (2)(b) beidio â chynnwys newid o ran pa gyrff llywodraethu sy'n bwriadu ffedereiddio.

(4) Rhaid cyhoeddi unrhyw benderfyniad o dan baragraff (2) ar wefan yr awdurdod lleol a rhaid anfon copi ohono at—

(a) unrhyw awdurdod lleol perthnasol arall;

(b) pennaeth pob un o'r ysgolion;

(c) yn achos unrhyw ysgol sydd â sefydliad—

(i) y llywodraethwyr sefydledig; a

(ii) unrhyw ymddiriedolwyr ymddiriedolaeth sy'n gysylltiedig â'r ysgol;

(d) pan fo unrhyw rai o'r ysgolion wedi eu dynodi o dan adran 69(3) o Ddeddf 1998 yn rhai o gymeriad crefyddol, yr awdurdod esgobaethol priodol yn achos un o ysgolion yr Eglwys yng Nghymru neu'r Eglwys Gatholig Rufeinig, neu'r corff crefyddol priodol yn achos unrhyw ysgol arall o'r fath; ac

(e) unrhyw bersonau eraill a ystyrir yn briodol gan yr awdurdod lleol.